# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 14/11/2017 Ysgol Morfa Nefyn am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes | Sian Hughes | Gruffydd Williams | Catrin Roberts | Janice Evans |
| Bethan Williams | Bleddyn Evans | Rhys Tudur | Guto Williams | Andrew Owen |
| Glenda Rice | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Sharon Williams ac Gwynfor Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio
   Sian Hughes – Ceisiadau Cynllunio gan ei bod yn Aelod Lleol

3. **Cofnodion 10/10/2017 (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir yn dilyn man newidiadau h.y. Cywiriad - Aelod Cabinet; Ioan Thomas

4. **Seddi Gwag**
   Croesawu Glenda Rice a Janice Evans i'r cyfarfod fel aelodau newydd.
   Janice Evans – Morfa Nefyn
   Glenda Rice – Nefyn

5. **Traethau Nefyn a Morfa Nefyn**
   Arfon Hughes yn rhoi trosolwg hanesyddol i'r aelodau newydd.
   Gruff Williams yn nodi fod gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd foesol i warchod y traethau fel y nodwyd gan y cyn aelod cabinet Mandy Davies.
   Mae cyfarfod wedi ei drefnu 30/11/2017 3:00yp hefo Cyngor Gwynedd, yr Ymddiriedolaeth, Ioan Thomas Aelod Cabinet a Chyngor Tref i drafod cynllun hir dymor i ddatrys y sefyllfa. Mae'n bwysig adeiladu ar y trefniadau, hynod lwyddiannus, eleni i'r dyfodol.
   Yn Porthdinllaen mae'r broblem fwyaf, mae'r bad achub yn awyddus i helpu hefo'r sefyllfa. Efalla'I gellir defnyddio'r RIB i fynd o amgylch y cychod o safbwynt diogelwch a nodi troseddau.
   Nid yw'r bad achub ar draethau Gwynedd er u bod hefo cynrychiolaeth o Gonwy ymlaen a bae Ceredigion.
   Rhian Hughes-Jones i drefnu llythyr i berchnogion tir yw atgoffa o'r oblygiadau diogelwch.

6. **Llwybrau**
   Diweddariad gan Sian Hughes a Gruffydd Williams
   Trem y Garn – Ysgol Morfa Nefyn – Rhaid i'r datblygwyr ddarparu llwybr addas i'r ysgol fel y nodwyd yn ddyfarniad cynllunio. Dim newid i'r sefyllfa ond trafodaethau dal i fynd ymlaen.
   Gors Geirch – Gwaith dal yn mynd ymlaen ac yn chwilio am le addas i roi'r llwybr.
   Bodlondeb – Mae'r llwybr wedi ei gau ond gwaith clirio dal yn mynd yn ei flaen yno.
   Aeron – Wal gerrig wedi syrthio, gwaith yn mynd yn ei flaen gan y perchennog yw trwsio.
   Cerrig Gleision – Dargyfeirio llwybr yr arfordir; Methu symud ymlaen gan nad oes ddim datrysiad addas. Mae'r llwybr yn anaddas ar gyfer aml-ddefnydd.
   Llythyr Perry Shard – Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen ac mae Gruffydd Williams yn mynd i ddilyn hyn i fynnu.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**7. Y Ddól**
Diweddariad gan Gruffydd Williams a Rhian Hughes-Jones
Cais cynllunio dal yn mynd yn ei flaen, disgwyl ymweliad safle gan y pwyllgor cynllunio.
Mae'r gwaith o gysoni gwybodaeth yn dal i fynd yn ei flaen.

**8. Meinciau**
Diweddariad Rhian Hughes-Jones
Gruffydd Williams yn cynnig safle priodol i osod y meinciau.
Nodyn – Gellir gwneud yn saff bod Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r newid i'r safle yma yw cynnal.

**9. Grwp Cynefin**
Sian Hughes wedi cael ei enwebu i gynrychioli Cyngor Tref Nefyn ar Grŵp Cynefin.

**10. Awdit BDO**
Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Canlyniad;

1. Ddim wedi cyflawni awdit mewnol o fewn amser – Mae hyn yn dilyn diffyg awdit mewnol i ddarparu'r wybodaeth o fewn yr amserlen.
2. Wefan ddim yn cydymffurfio a'r hyn sydd yn ofynnol – Gwaith dal i fynd yn ei flaen i alluogi'r clerc cael mynediad i'r wefan gefnogol er gallu ei ddiweddaru.
3. Nid oedd adroddiad cyllideb yn ddigonol – Mae hyn yn dilyn diffyg o adroddiad cyllid at 15-16 eleni bydd hyn wedi ei ddatrys gan fod adroddiad cyllid I 16-17.
4. Wedi datgan 'Na' yn hytrach nac 'N/A' i gwestiwn ynglŷn â chronfa ymddiriedolaeth – camgymeriad wrth lenwi'r ffurflen.

Hapus i nodi nad oes yna unrhyw broblem na ellir ei ddatrys erbyn awdit blynyddol eleni.

**11. Safle Ail Gylchu, Ffordd dewi Sant**
Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones –
Ddim wedi derbyn ymateb derbyniol gan Gyngor Gwynedd. Rhian Hughes-Jones am ysgrifennu llythyr pellach I Gyngor Gwynedd yn mynnu eu bod yn gwaredu'r biniau ailgylchu cyn gynted a bod modd.
Mae'r sefyllfa dal yr un peth hefo ysbwriel yn cael ei adel ar hyd y safle i gyd.

**12. Cyfrifon y Cyngor**
Diweddariad gan Arfon Hughes ynglŷn â'r gwariant hyd yn hyn.
Angen trefnu cyfarfod Is-bwyllgor ariannol cyn diwedd y flwyddyn er mwyn gallu gosod presept cyn mis Ionawr.
Aelodau wedi eu henwebu i'r is-bwyllgor ariannol;
Arfon Hughes, Rhys Tudur, Janice Evans, Catrin Roberts, Glenda Rice a Rhian Hughes-Jones

**13. Pwyllgor Calan Gaeaf**
Trefniant coed Nadolig – Dim ond wedi derbyn un tendr o fewn yr amserlen gan David Atkin.
Bydd angen gosod y coed dydd Mercher 22/11/2017 er mwyn i Bleddyn Evans gallu trefnu rhoi'r goleuadau i fynnu.
Troi'r goleuadau ymlaen 29/11/2017 – Bethan Williams wedi trefnu hyn ynghyd a ffair Nadolig yr ysgol a chymdeithas rhieni ac athrawon ysgol Nefyn.
Byddwn yn ddiolchgar o unrhyw wirfoddolwyr.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

Amserlen Noswaith Nadolig 29/11/2017
4:30 – Mynediad i'r ganolfan i osod stondinau a groto Sïon Corn
4:45 – Gofynnwyd i'r heddlu gau lonydd ar gyfer troi'r goleuadau ymlaen
5:00 – Rhoi'r goleuadau ymlaen gyda chôr plant yr ysgol
5:20 – Cerdded i fyny i'r ganolfan gyda phlant yr ysgol
5:30 – Drysau'r ganolfan yn agor, Stondinau a Groto Sïon corn yn ogystal â phaned a mins pei
7:30 – Drysau yn cau – Clirio

**14. Diffibriliwr Edern**

Diweddariad gan Sian Hughes
Mae'r diffibriliwr bellach wedi ei symud. Diolch yn fawr iawn i Bleddyn Evans ar ran trigolion Edern am ei waith. Sian wedi trefnu ei ail gofrestru.
Mae ysgol Nefyn wedi talu am fatri newydd i diffibriliwr ysgol Nefyn ac mae Sian yn cynnig ei'n bod yn talu am y batri newydd fel ad-daliad i ysgol Nefyn.

**15. Llyfrgell**

Diweddariad gan Gruffydd Williams
Mae'r gwaith dal i fynd yn ei flaen ond mae adroddiad wedi dod i law yn nodi presenoldeb asbestos, yn amlwg bydd angen edrych i mewn mwy i hyn a'i ddatrys.

**16. Mynwentydd**

Diweddariad gan Gruffydd Williams
Mae'r biniau yn aml iawn yn gorlifo yn y mynwentydd ac mae'r cyngor tref yn derbyn nifer o gwynion am hyn dros yr wythnosau diwethaf.
Rhian i edrych i mewn i gael biniau mwy i'r mynwentydd.
Gwaith da wedi bod yn mynd ymlaen i drwsio ac i gryfhau wal y fynwent gan Robin (Bws Nefyn) yn anffodus mae'r cerrig dal wedi eu gadael ar dir y fynwent lle mae angen mynediad iddo. Gruffydd Williams yn hapus i edrych i mewn i hyn.
Rhian Hughes-Jones i edrych i mewn i sefyllfa ariannol a gwneud diweddariad i'r Cyngor.

**17. Rheolau'r Cyngor**

Trefnu cyfarfod is-bwyllgor Rheolau cyn gynted a bod modd.
Aelodau Arfon Hughes, Dafydd Rhun, Rhys Tudur, Bleddyn Evans, Guto Williams a Rhian Hughes-Jones

**18. Clirio Dogfennau Hanesyddol**

Wedi gosod dyddiad 25/11/2017 i glirio Siop Siarad. Nifer o aelodau yn barod i helpu, gobeithio cael cynrychiolaeth o 10:00yb – 15:00yp

**19. Toiledau Cyhoeddus**

Gan fod y toiledau eisoes wedi gostwng mewn niferoedd (o 5 i 4) cytunwyd ei fod yn bwysig i gadw'r 4 yn agored. Rhian Hughes-Jones am fynd yn ôl at Gyngor Gwynedd yn cynnig yr un telerau ac 16-17.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**Ceisiadau Cynllunio**

**C17/0924/42/LL**
Ymestyn a trosi modurdy Presennol I greu llety byw ychwanegol ar gyfer y bwthyn presennol
Crud yr Awel, Mynydd Nefyn, Nefyn.
**Dim gwrthwynebiad**

**C17/0999/42/LL**
Diddymu amod I ganiatau defnydd llety gwyliau drwy gydol y flwyddyn
Ger y Bont, Ceidio, Nefyn.
**Dim gwrthwynebiad**

**C17/0920/42/LL**
Adeiladu modurdu dwbl a creu llefydd parcio
10 Penrhos, Lon Pen Rhos, Morfa Nefyn
**Gwrthwynebu ar sail gor ddatblygiad**

**C17/1004/42/LL**
Gwaith gwella i fynedfa bresennol
Nefyn Service Reservoir, Nefyn
**Dim gwrthwynebiad**

**Ceisiadau am gyfraniad**

1. **Y Groes Goch Brydeinig – Cais Blynyddol am arian i gefnogi Gwasanaethau Lleol**
2. **Clwb Hoci Pwllheli**
3. **Grŵp mynediad Dwyfor**
4. **Marie Curie – Gwasanaeth Nyrsio**
5. **Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Nefyn – Anrhegion Nadolig**

Bydd Ceisiadau am gyfraniad yn cael ei deli gyda diwedd y flwyddyn.
Rhai wedi amlygu mewn coch yn fater brys ac wedi eu hystyried a'u chymeradwyo

**Gohebiaeth**

1. Un Llais Cymru – Bwletin Tachwedd 2017.
   Costau claddu plant.
2. Un Llais Cymru – Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Digwyddiadau Ymgynghori
3. Un Llais Cymru - Modiwlau hyfforddiant olaf y tymor yma
4. SLCC - Bwletin Hydref 2017
5. Clerks & Councils Direct – Tachwedd 2017
6. Local Council Update – Mis Tachwedd

**7.** Community Magazine Printing – Gwasanaeth printio i cymunedau
**8.** Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf. – Rali Goffa James Trenholme, Tachwedd 11/12 2017
**9.** Robyns Owen – Dychwelyd Gweithredoedd Tir Rhos y Rhimmon ynghyd a dogfennaeth gan y Gofrestra Tir
**10.** Llywodraeth Cymru – Panel Adolygu Annibynnol.
**11.** Cyfeillion Eglwys Santes Fair Morfa - gofyn am lythyr cefnogol gan y Cyngor i'w cais am grant gan ANHE i ail beitio tu mewn yr eglwys. Dwi ar y pwyllgor yma felly galla i toi eglurahad llawn.
**12.** Comisiwn Ffiniau i Gymru – Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yn Nghymru, Cynigion Diwygiedig

**<u>Taliadau wedi cael ei cymeradwyo</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc** | **£726.93** |
| Medi £726.93 | |
| Gwaith Ychwanegol 20 awr 45 munud | |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£13.76** |
| **BACSTAL** – Gwasanaeth chwarter 2 | **£106.80** |
| **J G Jones** – Torrwr Beddi | **£1025.00** |
| 24/10/17 - £350 | |
| 24/10/17 - £400 | |
| 24/10/17 - £275 | |
| **Cyngor Gwynedd** – Cyfraniad tuag at gostau rheolaeth traethau Nefyn yn ystod tymor 2017 | **£5000.00** |
| **Cyngor Gwynedd / Centrewire** – Giatiau Chwarel Nanhoron (BIG) | **£2845.20** |
| **Cyngor Gwynedd** – Rhent Tir y Ddol | **£100.00** |
| **Swyddfa Archwilio Cymru** – Awdit 2016-17 | **£197.25** |
| **Ashley Hughes** – Nwyddau | **£37.90** |
| **Sharon Williams** - parti calangaeaf | **£300.00** |
| **Clerks & Councils Direct -** adnewyddu | **£12.00** |
| **Clif Hughes** | **£2023.00** |
| 4ydd taliad contract £1060.00 | |
| Gwaith Ychwanegol £327.00 | |
| **D M Parry –** 4ydd Taliad Contract | **£963.00** |
| **Cyfraniad Cymdeithas Rhieni Ysgol Nefyn –** Arian at anrhegion Nadolig 2017 | **£200.00** |
| **Clwb Hoci Pwllheli –** Cynnal cae amlddefnydd | **£1000.00** |
| **TALIAD BRYS Batri Diffibriliwr Nefyn –** adaliad ysgol Nefyn | **£88.80** |
| **TALIAD BRYS G Williams Ground Works –** Gwaith ar llwybrau ers Ebrill 2017 (BIG) | **£10,000.00** |

**<u>Ôl Nod</u>**

**Pensiwn y Clerc –** Arfon Hughes am edrych i mewn i hyn.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651